# Cofnodion cryno - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Mawrth 2024

Amser: 09.32 - 13.02

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14032

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Delyth Jewell AS (Cadeirydd)<br>Hefin David AS<br>Alun Davies AS<br>Tom Giffard AS<br>Llyr Gruffydd AS |
| Tystion: | Laurence Farreng ASE, Senedd Ewropeaidd<br>Yr Athro Catherine Barnard, Coleg y Drindod Caergrawnt<br>Dr Charlotte Faucher, Prifysgol Bryste |
| Staff y Pwyllgor: | Lleu Williams (Clerc)<br>Haidee James (Ail Glerc)<br>Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)<br>Manon Huws (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd)<br>Sara Moran (Ymchwilydd)<br>Madelaine Phillips (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Delyth Wiliams (Swyddog) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, a nododd fod trefn yr agenda wedi newid er mwyn darparu ar gyfer argaeledd tystion, a olygai y byddai'r Pwyllgor bellach yn cyfarfod yn gyhoeddus ar gyfer y ddwy eitem gyntaf.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Carolyn Thomas AS.

## 2 Diwylliant a'r berthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd: Sesiwn dystiolaeth gydag Aelod o Bwyllgor Senedd Ewrop ar Ddiwylliant ac Addysg (6)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Laurence Farreng ASE, Aelod o Bwyllgor Senedd Ewrop ar Ddiwylliant ac Addysg.

## 3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ddiwygio ei adroddiad drafft ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru i adlewyrchu tystiolaeth ysgrifenedig a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5, 6, 7, 8, 10, 11 a 12.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Diwylliant a'r berthynas newydd â’r Undeb Ewropeaidd: Cyflwyno canfyddiadau ymgysylltu â dinasyddion

5.1 Oherwydd materion technegol, nid oedd modd i’r Pwyllgor gael cyflwyniad ar ganfyddiadau ymgysylltu â dinasyddion a bydd yn ceisio aildrefnu'r eitem hon ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

## 6 Diwylliant a'r berthynas newydd â’r Undeb Ewropeaidd: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Hawliau darlledu rygbi’r Chwe Gwlad: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd i dderbyn mân newidiadau drwy e-bost.

## 8 Trafod y flaenraglen waith ar gyfer haf 2024

8.1 Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith ar gyfer haf 2024 a chytunwyd ar y Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer ymchwiliad undydd ym maes datblygu’r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16.

8.2 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y flaenraglen waith ehangach ar gyfer haf 2024 eto mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 9 Diwylliant a'r berthynas newydd â’r UE: Sesiwn dystiolaeth gydag arbenigwyr Brexit (7)

9.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Catherine Barnard, Prifysgol Caergrawnt, a Dr Charlotte Faucher, Prifysgol Bryste.

## 10 Diwylliant a'r berthynas newydd â’r Undeb Ewropeaidd: Trafod y dystiolaeth

10.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 11 Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (CPTPP): Dadansoddiadau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru

11.1 Trafododd y Pwyllgor ddadansoddiadau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru o'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (CPTPP) a chytunodd i gadw golwg ar ddatblygiadau.

## 12 Cytundebau Rhyngwladol: Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol

12.1 Trafododd y Pwyllgor Gonfensiwn UNESCO ar Ddiogelu Cytundebau Rhyngwladol Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol a chytunwyd i gadw golwg ar y mater.

12.2 Cytunodd y Pwyllgor hefyd i rannu'r ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU â Phwyllgor y Senedd ar Ddeddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac â Phwyllgor Senedd y DU ar Gytundebau Rhyngwladol.